CYFLWYNIAD

Hoffem glywed eich safbwyntiau am y BBC nawr ac yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, caiff gweithgareddau'r BBC eu llywodraethu gan Siarter Frenhinol - dogfen sy'n siapio'r BBC, gan nodi ei bwrpas, yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwneud hyn. Mae adolygiad o'r BBC, a elwir yn adolygiad o'r Siarter, yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Ar ôl ei gwblhau, byddwn yn gallu ystyried sut y bydd y BBC yn gweithredu yn y dyfodol.

Mae bron pob un ohonom yn gwylio neu'n gwrando ar y BBC, boed hyn trwy wylio'r newyddion a digwyddiadau chwaraeon megis Cwpan yr FA, sioeau poblogaidd megis Eastenders, neu raglenni materion cyfoes megis Panorama. Mae ganddo rôl dyddiol ym mywyd y mwyafrif ohonom. Mae'n rhan hanfodol o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl. Llais unigryw i droi ato ar adegau da a gwael.

Mae unrhyw un sy'n berchen ar deledu yn talu am y BBC trwy ffi'r drwydded. Mae hynny'n rhoi rhan iddynt yn ei ddyfodol.

Er 1927, cynhaliwyd adolygiad bob rhyw 10 mlynedd i weld sut y mae'r BBC yn gwasanaethu'r cyhoedd ac er mwyn ystyried ei ddyfodol.

Gallwch gymryd rhan yn yr adolygiad diweddaraf hwn trwy leisio'ch barn.

EICH BBC EICH BARN

Ni ddiystyrir unrhyw beth yn yr adolygiad o'r Siarter. Yr unig ganlyniad pendant yw BBC cryf sy'n annibynnol o'r Llywodraeth. Dyma'ch cyfle chi i ddylanwadu ar ei ddyfodol.

Eich BBC chi ydyw; gwnewch yn siŵr eich bod yn lleisio'ch barn.

Mae'r BBC yn darparu'r gwasanaethau canlynol a ariennir gan arian cyhoeddus:

- Sianelau Teledu – BBC1 a BBC2, BBC 3 a BBC4, CBeebies, CBBC, BBC News 24 a BBC Parliament.
- Gwasanaethau Radio – Radio1, Radio2, Radio 3, Radio 4, Radio Five Live, Five Live Sports Xtra, Radio 1Xtra, BBC6 Music, BBC7, BBC Asian Network a BBC World Service, yn ogystal â 38 o orsafoedd radio lleol a 6 gorsaf arall ar gyfer y cenhedloedd.
- BBCi – gwasanaethau rhyngweithiol y BBC, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, testun rhyngweithiol a theledu digidol rhyngweithiol.
- Gwasanaethau yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau – BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a BBC English Regions.

Yn ogystal, mae'r BBC yn gyfrifol am redeg nifer o wasanaethau masnachol, gan gynnwys BBC Worldwide Ltd a BBC Ventures Ltd.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y BBC a'r adolygiad o'r Siarter, trowch at www.bbccharterreview.org.uk

Os na allwch ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn eich cartref, dylech fod yn gallu gwneud yn eich llyfrgell leol.

Department for Culture, Media and Sport

Ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad o Siarter y BBC

EICH BBC EICH BARN

CWESTIYNAU ALLWEDDOL

Er mwyn helpu pobl i ystyried y BBC, rydym wedi paratoi rhestr o gwestiynau allweddol. Hoffem i chi anfon eich atebion iddynt atom.

- **Beth ydych chi'n ei werthfawrogi fwyaf am y BBC?** Er enghraifft, ai'r rhaglenni newyddion, chwaraeon, y celfyddydau neu'r rhaglenni addysg? Pa mor dda y mae'n darparu ar gyfer y gwahanol genhedloedd, rhanbarthau a chymunedau ledled y Deyrnas Unedig? Pa bynciau nad yw'n rhoi sylw cystal iddynt?
- **Sut ddylai'r BBC addasu i ymdopi â newidiadau mewn technoleg a diwylliant?** Er enghraifft, sut ddylai ymateb i'r ffaith bod mwy a mwy ohonom yn defnyddio'r Rhyngrwyd neu wasanaeth teledu digidol?
- **Beth yw'ch barn chi am y gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein a ddarperir gan y BBC?** Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld?
- **A ddylai'r BBC redeg gwasanaethau masnachol?** Mae'r BBC yn cynhyrchu cylchgronau megis The Radio Times a DVDs o raglenni poblogaidd megis The Office. Trosglwyddodd ei brif adain fasnachol, BBC Worldwide, £123 miliwn yn ôl i wasanaethau cyhoeddus yn ystod 2002/03. Yn eich barn chi, a ddylai'r BBC barhau i redeg gweithrediadau masnachol?
- **Sut ddylem dalu am y BBC?** Ai ffi'r drwydded yw'r ffordd orau, neu a allwch awgrymu unrhyw ddewisiadau gwahanol?
- **A yw'r BBC wedi'i drefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon?** A yw wedi'i drefnu i ddarparu'r gwasanaethau gorau i'r cyhoedd?
- **Sut ddylid rhedeg y BBC? Sut ddylid ei reoleiddio?** Mae gan Lywodraethwyr y BBC ddau rôl ar hyn o bryd. Yn gyntaf, maent yn gyfrifol am oruchwylio sut y caiff y BBC ei redeg yn fewnol. Yn ail, maent yn gyfrifol am reoleiddio er budd y cyhoedd - er enghraifft, gwneud yn siŵr ei fod yn bodloni safonau'n ymwneud â chywirdeb, didueddrwydd a masnachu teg. Ai dyma'r dull gweithredu gorau?
- **Sut mae sicrhau bod y BBC yn atebol i'r cyhoedd a'r Senedd yn y ffordd gywir?** A ddylai'r cyhoedd fod yn gallu cael mwy o ddylanwad ar y BBC? Os dylai, sut?

Y CAMAU NESAF

Wrth gwrs, efallai nad oes gennych safbwyntiau am yr holl faterion hyn, neu efallai bod gennych safbwyntiau am bethau eraill y mae'r BBC yn eu gwneud nad yw'r cwestiynau uchod yn cyfeirio atynt. Hoffem glywed am y rhain hefyd. Mae'n hollbwysig eich bod yn lleisio'ch barn.

Gallwch wneud hyn trwy anfon eich safbwyntiau am y BBC at:

E-bost: bbccharterreview@culture.gsi.gov.uk
Post: BBC Charter Review Consultation
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street, London SW1Y 5DH
Rhif ffôn: 0207 211 6418

Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r ymatebion cyn pen deng diwrnod gwaith o'u cael. Fodd bynnag, gallwch ofyn i ni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol. Gallwch hefyd gyfleu eich safbwyntiau'n uniongyrchol i Weinidogion yn ystod cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir ledled y DU. Cyhoeddir manylion ar wefan adolygiad y Siarter cyn bo hir.

Dylid anfon yr holl ymatebion erbyn 31 Mawrth 2004.

Bydd y camau nesaf yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniad yr ymgynghoriad yr estynnir gwahoddiad i chi gymryd rhan ynddo.

Ond nid dyma'ch unig gyfle i leisio'ch barn. Ar ôl i ni gasglu'ch safbwyntiau cychwynnol, byddwn yn llunio dewisiadau mwy pendant ar gyfer dyfodol y BBC ac yn rhoi cyfle i chi wneud sylwadau am y rhain. Bydd y Senedd yn cael cyfle i gyfrannu hefyd.

Caiff yr adolygiad o'r Siarter ei gwblhau cyn diwedd 2006.

EICH BBC EICH BARN